# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Chestnut House**

**Cartref Nyrsio Chestnut House**
**Ffordd Penarlâg, Yr Hôb**
**Wrecsam**
**LL12 9NH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Chestnut House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Chestnut House Nursing Home Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn parchu'r bobl ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff o ran anghenion cymorth a dewisiadau'r bobl. Mae cofnodion yn dangos y caiff gofal ei ddarparu yn dilyn cynlluniau unigol ac asesiadau risg y bobl. Mae'r adborth gan weithwyr proffesiynol a pherthnasau yn gadarnhaol am y cartref.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd fel rhan o'i waith yn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi gwella ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio'r cartref yn dilyn yr adborth gan AGC a gweithwyr proffesiynol. Bu buddsoddi parhaus yn y cartref i'w gadw mewn cyflwr da ac i sicrhau bod lefelau staffio digonol. Gwnaed gwelliannau ar draws y gwasanaeth sydd wedi arwain at ganlyniadau a llesiant da i'r bobl sy'n byw yno.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom bobl yn symud o gwmpas y cartref fel y dymunant ac yn cymdeithasu ag eraill. Gall y bobl wneud dewisiadau am pryd i godi, beth i'w wisgo, beth i'w fwyta neu ei yfed. Mae'r rheolwr yn ceisio barn y bobl ar sut y dylai'r cartref gael ei addurno a beth i'w gynnig ar y fwydlen. Caiff y perthnasau eu cynnwys wrth gynllunio digwyddiadau a theithiau dydd i'r gymuned. Caiff preswylwyr eu cynnwys wrth recriwtio staff newydd ac maent yn cymryd rhan mewn cyfweliadau recriwtio.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus a chânt y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Mae cydlynydd gweithgareddau yn y gwasanaeth y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos yn darparu gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau yn seiliedig ar ddewisiadau a diddordebau'r bobl. Gwelsom bobl yn mwynhau gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp yn ystod ein hymweliad. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn sgwrsio â nhw am y pethau a'r bobl sy'n bwysig iddynt. Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymweld â'r bobl os bydd angen. Caiff anghenion cyfathrebu'r bobl eu cefnogi, gan gynnwys eu dewis iaith. Mae gan y darparwr arwyddion dwyieithog a rhai sy'n cynnwys lluniau yn yr adeilad i gefnogi'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu'n cael trafferth darllen. Mae hefyd wrthi'n diweddaru'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth, a fydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae dau breswylydd sy'n hyrwyddwyr y Gymraeg sy'n mwynhau dysgu gair gwahanol bob dydd i'r staff gofal.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant ar sut i atal, nodi a rhoi gwybod am achosion a amheuir o gam-drin neu esgeulustod, ac yn meddu ar wybodaeth am hyn. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn tywys y staff. Gwelsom fod y staff yn hyderus wrth godi pryderon gyda'r rheolwr a chymerir camau gweithredu'n gyflym i'w datrys. Mae proses gwneud penderfyniad ar fudd gorau i'r bobl sydd heb y galluedd i wneud hynny, a chyfle i gael gafael ar eiriolwr lle y bo'n briodol. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal yn y cartref ac mae'r bobl yn ddiogel yno.

## Gofal a Chymorth

Caiff y staff gofal eu harwain gan y cynlluniau personol ar gyfer gofal a chymorth y bobl. Caiff y rhain eu hysgrifennu gan ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau amrywiol gan gynnwys y bobl eu hunain, a'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr. Mae'r cynlluniau personol yn briodol fanwl ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff gofal am ddewisiadau'r bobl, eu hamcanion personol a sut y dylai'r staff gofal eu cefnogi i gyflawni'r amcanion hynny. Mae cofnodion yn dangos bod cynlluniau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod diweddariadau yn cael eu gwneud wrth i anghenion pobl newid. Cynhelir asesiadau risg unigol i nodi sut i gefnogi'r bobl yn ddiogel yn y cartref. Mae'r asesiadau hyn yn gysylltiedig â'r cynlluniau personol perthnasol ar gyfer pob agwedd ar anghenion gofal y bobl, a chaiff y camau gweithredu sydd angen i'r staff eu cymryd eu hamlygu. Mae system electronig newydd ar gyfer cynllunio gofal a chofnodi. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i gael gafael ar gynlluniau ar y system newydd a sut i'w hadolygu, gan ddefnyddio dyfeisiau a ddelir â llaw.

Caiff y bobl brofiad o ofal a chymorth da a ddarperir gan nifer briodol o staff sydd wedi cael hyfforddiant, sy'n dilyn cynlluniau personol y bobl. Mae'r holl staff yn y cartref yn adnabod y bobl yn dda ac yn treulio amser yn sgwrsio â nhw am yr hyn y maent yn ei fwynhau. Gwelsom y staff gofal yn darparu gofal a chymorth urddasol a pharchus. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn mwynhau treulio amser yn gweithio gyda'r staff gofal a monitro ansawdd y gofal i lywio gwelliannau. Gwelsom fod gan y staff gydberthynas dda â'r bobl a'u perthnasau, a oedd yn cael eu cynnwys wrth gynllunio trafodaethau ar ymweliadau a gweithgareddau cartref yn ystod ein hymweliad. Mae'r staff gofal yn garedig, yn amyneddgar ac yn ofalgar wrth gefnogi'r bobl. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y bobl ac yn siaradus, yn amyneddgar, ac yn gyfeillgar. Mae'r cofnodion gofal yn briodol fanwl ac yn dangos bod y gofal a roddir yn dilyn cynlluniau personol a chyngor proffesiynol. Gwelsom gymorth ac anogaeth dda yn cael eu cynnig i'r rhai a oedd eu hangen yn ystod amser prydau bwyd. Caiff y bwyd yn y cartref ei baratoi'n ffres ac roedd yn edrych ac yn arogli'n flasus. Rhoddir dewis o opsiynau ar y fwydlen i'r bobl yn ystod amser prydau bwyd a chânt eu cynnwys wrth ddatblygu'r fwydlen dymhorol ddiweddaraf.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli a lleihau heintiau yn y cartref, a bod y staff i gyd yn eu dilyn. Gwelsom staff domestig yn gweithio yn ystod ein hymweliad a'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn addas.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant priodol ac yn gymwys o ran rhoi a storio meddyginiaethau yn y cartref. Cafodd y gwasanaeth adborth cadarnhaol gan y gweithwyr iechyd proffesiynol yn dilyn archwiliad ac ar ôl iddynt fonitro'r trefniadau rhoi a storio meddyginiaethau yn y cartref.

## Yr Amgylchedd

Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r darparwr gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod y cartref yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cartref yn gynnes, yn groesawgar, wedi'i addurno'n dda, yn lân ac yn daclus ym mhob rhan ohono. Gwelsom staff domestig yn gweithio yn ystod ein harolygiad, ac nid oedd annibendod ar y coridorau. Roedd y lolfa fwyta yn brysur ar adegau, ond gwelsom y staff gofal yn ofalus wrth sicrhau nad oedd y cyfarpar a'r cadeiriau yn rhwystro llwybrau cerdded, gan alluogi'r bobl i symud o gwmpas yn rhydd. Gwelsom fod y dodrefn yn y lolfeydd yn darparu digon o seddi i'r bobl a'r ymwelwyr. Mae'r byrddau bwyta wedi'u paratoi â gosodiadau lleoedd, cyllyll a ffyrc, a gwydrau ar gyfer y prydau. Gwelsom arwyddion dwyieithog a rhai sy'n cynnwys lluniau ym mhob rhan o'r adeilad yn arwain y bobl at yr ystafelloedd ymolchi a'r ardaloedd cymunedol.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn buddsoddi yn ffabrig yr adeilad ac yn sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom yr unigolyn cynnal a chadw yn ailaddurno'r lolfa yn ystod ein hymweliad, ac mae gwaith wedi dechrau i ailaddurno'r coridorau sy'n arwain at yr ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl sy'n byw yn y cartref wedi dewis y lliw a'r addurniadau coeden blodau hardd a'r aderyn cân ar gyfer coridor yr estyniad. Gwelsom fod y décor yn olau ac yn chwaethus, sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad cartrefol. Gwelsom gynllun cynnal a chadw sy'n tynnu sylw at flaenoriaethau i ailaddurno ac adnewyddu dros y misoedd nesaf. Gwelsom gofnod cynnal a chadw hefyd o faterion bach i'r unigolyn cynnal a chadw; caiff hyn ei fonitro a'i ddiweddaru pan fydd y materion yn cael eu datrys. Gwelsom dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu'r amgylchedd a'r décor fel rhan o'i ymweliadau rheolaidd â'r cartref. Gwelsom fod hyn hefyd yn rhan o adolygiad yr uwch-reolwyr o'r cartref yn ystod eu hymweliadau rheolaidd.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod digon o gyfarpar yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom gofnodion am brofion a gwaith cynnal a chadw cyfarpar yn cael eu cwblhau ers ein harolygiad diwethaf. Gwelsom y gwnaed gwelliannau i'r trefniadau cofnodi gwiriadau iechyd a diogelwch arferol, ac mae gwaith i wella hyn ymhellach yn barhaus.

Gwelsom gofnodion o archwiliadau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cwblhau fel rhan o wiriadau cydymffurfio, ac i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae cofnodion o gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer pob preswylydd a chânt eu diweddaru wrth i anghenion cymorth newid. Mae'r cofnodion ymarferion tân a'r profion larwm tân rheolaidd yn gyfredol. Mae gan y cartref Sgôr Hylendid Bwyd o bump, sef y sgôr orau bosibl.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r darparwr gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwella'r systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer trefniadau goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl a'r staff ac yn adolygu amrywiaeth o ddogfennau ac archwiliadau am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r safle a'r amgylchedd. Mae canlyniadau'r ymweliadau hyn yn cynnwys cynllunio camau gweithredu a monitro cynnydd wedi hynny tuag at gwblhau'r gweithredoedd hynny. Mae'r uwch-staff rheoli yn darparu pwynt cyswllt a chyngor ychwanegol i'r rheolwr cofrestredig. Mae cofnodion yn dangos bod yr uwch-reolwr yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn monitro pob agwedd ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg ac yn rhoi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r uwch-reolwyr. Mae cofnodion yn dangos bod y darparwr gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol wedi gweithredu ar yr adborth gan AGC a gweithwyr proffesiynol eraill i lywio gwelliannau ac i gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r adborth a gawsom gan weithwyr proffesiynol yn cefnogi hyn. Mae'r darparwr wrthi'n diweddaru ei holiaduron adborth ar hyn o bryd er mwyn i'r bobl a'u teuluoedd eu cwblhau. Gwelsom fersiwn drafft o'r rhain yn ystod ein hymweliad; maent yn ddwyieithog ac yn defnyddio iaith syml a lluniau i ddiwallu anghenion cyfathrebu amrywiol y bobl.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod digon o staff yn y cartref ac yn parhau i recriwtio fel sydd angen. Dangosir lle caiff staff asiantaeth eu defnyddio yn y rhestrau gweithio. Mae'r rheolwr yn gofyn i'r un aelodau o staff weithio i sicrhau parhad gofal i'r bobl. Rhoddir sesiwn sefydlu iechyd a diogelwch gynhwysfawr i'r holl staff asiantaeth ar eu sifft cyntaf a chânt eu cynnwys mewn unrhyw hyfforddiant mewnol.

Gellir rhoi sicrwydd i'r bobl bod y staff newydd yn cael eu fetio'n drylwyr cyn iddynt gael eu penodi a byddant yn ymgymryd â sesiwn sefydlu briodol fel rhan o'u cyfnod prawf. Mae'r cofnodion yn cadarnhau y gwneir gwiriadau rheolaidd o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff hirsefydledig, ynghyd â gwirio a ydynt wedi cofrestru â'r cyrff rheoleiddio perthnasol. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos gwelliannau o ran cymysgedd sgiliau a chymhwysedd y staff yn y cartref. Mae'r darparwr wedi rhoi hyfforddiant gloywi ar waith i'r holl staff ar gyfer pob pwnc, i sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddiwallu anghenion y bobl. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff yn cael hyfforddiant un i un ar sut i ddiogelu'r bobl rhag niwed; gwnaed hyn yn ogystal â hyfforddiant ar-lein ar y pwnc hwn. Mae'r uwch-staff wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol i'w galluogi nhw i hyfforddi'r staff yn y cartref ar dechnegau symud a chodi a chario cywir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 66 | Mae'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i fod yn Unigolyn Cyfrifol, ond mae wedi methu â dangos yn ddigonol ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth fynd i'r afael â hyn ar unwaith. | Cyflawnwyd |
| 6 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i’r datganiad o ddiben. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod systemau a phrosesau digonol ar waith i oruchwylio ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol. Rhaid iddynt sicrhau bod y staff gofal, y rheolwyr a'r darparwr yn dilyn y | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | systemau a'r prosesau hynny, yn unol ag argymhelliad yr Unigolyn Cyfrifol. | |
| 21 | Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y caiff gofal ei ddarparu gan ddilyn cynlluniau gofal personol y bobl. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant y bobl. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/11/2023